

YOUNG, DAVID (1844 - 1913), gweinidog Wesleiaidd a hanesydd

Enw: David Young

Dyddiad geni: 1844

Dyddiad marw: 1913

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog Wesleiaidd a hanesydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant

Awdur: Griffith Thomas Roberts

Ganwyd gerllaw Hwlfordd, 3 Tachwedd 1844. Pan oedd yn ieuanc symudodd y teulu i Bontlotyn, a bu yntau am gyfnod yn gweithio yn y gwaith glo. Derbyniwyd ef i'r weinidogaeth Wesleiaidd yn 1868, a bu'n gwasnaethu cylchdeithiau Caerfyrddin (1868), Aberystwyth (1869-71), Machynlleth (1872), Merthyr Tydfil (1873-5), Aberdâr (1876-8), Llanidloes (1879-81), Caerdydd (1882-4), a Ferndale (1885-7). Etholwyd ef yn gadeirydd talaith Deheudir Cymru yn 1880. Pleidiai'r cynllun o uno Wesleath Gymraeg a Wesleath Saesneg y Deau, 'amalgamation' fel y'i gelwid - a phan ganfu mor gyndyn oedd gwrthwynebiad ei gyd-Gymry yn y dalaith iddo, aeth drosodd i'r gwaith Saesneg. Wedi tymor ar gylchdaith Saesneg Loudoun Square, Caerdydd (1888-90), bu ar rai o gylchdeithiau pwysicaf Lloegr. Cymerth ran flaenllaw yngl n â dirwest ac addysg (yn enwedig yngl n â sefydlu Coleg Caerdydd), a dywedir iddo ddangos dawn arbennig fel trefnydd ar ei gylchdeithiau. Yn 1893 cyhoeddodd hanes Wesleath yng Nghymru, *The Origin and History of Methodism in Wales*; gweler hefyd *Proc. Wesley Hist. Soc.*, ix. Bu farw ym Margate, 4 Awst 1913.

Awdur

Y Parchedig Griffith Thomas Roberts, (1887 - 1977)

Ffynonellau

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, 1913, 358

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804688](https://www.wikidata.org/wiki/Q20804688)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

